O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 486 (Cy. 101)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad a Gosod Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Mawrth 2017* |
| *Yn dod i rym* | *22 Mawrth 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A470) a Chefnffordd Dolgellau i'r De o Benbedw (yr A494), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Mawrth 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A494 (Ffordd Osgoi Dolgellau, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad a Gosod Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Codi Cyfyngiad**

**3.** Bydd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Cyfyngiadau**

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), (mae’r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i’r arbedion a'r darpariaethau trosiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Mawrth 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

## CODI CYFYNGIAD

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 73 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy’n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 74 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

## ATODLEN 2

## TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 410 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy’n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 705 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.

## ATODLEN 3

## TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y darn o Gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 104 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494 hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt cyffordd gylchfan yr A470/A494.